------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 2 – y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Iau, 11 Mehefin 2015**

Amser:
**09.00**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Bethan Davies**
Clerc y Pwyllgor
0300 200 6565
SeneddCyllid@Cynulliad.Cymru

## Agenda

**Yn ei gyfarfod ar 21 Mai 2015 penderfynodd y Pwyllgor, o dan Reol Sefydlog 17.42, i wahardd y cyhoedd ar gyfer eitem 1 o'r cyfarfod heddiw**

### 1 Ariannu yn y dyfodol: Sesiwn briffio cynghorwr arbenigol (09.00 – 10.00) (Tudalennau 1 – 3)

Gerald Holtham

Papur 1 – Cyllid Llywodraeth Cymru yn y Dyfodol

**Cyhoedd**

### 2 Cynnig i ethol Cadeirydd dros dro o dan Reol Sefydlog 17.22 (10.00)

### 3 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon (10.00)

### 4 Papurau i'w nodi (10.00 – 10.05) (Tudalennau 4 – 6)

## 5 Ariannu yn y dyfodol: Sesiwn dystiolaeth 1 (10.05 - 11.00) (Tudalennau 7 - 28)

Alan Bermingham, CIPFA

Papur 2 – Ymateb CIPFA i'r ymgynghoriad
Briff gan y Gwasanaeth Ymchwil

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

Eitemau 7, 8, 9, 10 ac 11 o'r cyfarfod heddiw, ac eitemau 1 a 2 o'r cyfarfod ar 17 Mehefin 2015.

## 7 Ariannu yn y dyfodol: Trafod y dystiolaeth (11.00 - 11.30)

## 8 Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru): Trafod ymateb y Pwyllgor (11.30 - 11.45) (Tudalennau 29 - 31)

Papur 3 – Llythyr drafft

## 9 Rhagolygon ar gyfer Trethi Cymru (11.45 - 12.00) (Tudalennau 32 - 35)

Briff gan y Gwasanaeth Ymchwil

## 10 Gweithdrefnau'r Gyllideb: Gohebiaeth gyda'r Llywydd (12.00 - 12.15) (Tudalennau 36 - 41)

Papur 4 – Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid i'r Llywydd
Papur 5 – Llythyr gan y Llywydd i Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid

## 11 Blaenraglen Waith (12.15 - 12.30) (Tudalennau 42 - 48)

Papur 6 – Blaenraglen Waith

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 4
## Y Pwyllgor Cyllid

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 21 Mai 2015** |
| Amser: | **09.00 - 10.31** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
**http://senedd.tv/cy/3036**

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Jocelyn Davies AC (Cadeirydd)**<br>**Peter Black AC**<br>**Christine Chapman AC**<br>**Mike Hedges AC**<br>**Alun Ffred Jones AC**<br>**Ann Jones AC**<br>**Julie Morgan AC**<br>**Nick Ramsay AC** |
| Tystion: | **Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru**<br>**Kevin Thomas, Swyddfa Archwilio Cymru**<br>**Gillian Body, Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol, Swyddfa Archwilio Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Bethan Davies (Clerc)**<br>**Tanwen Summers (Dirprwy Glerc)**<br>**Martin Jennings (Ymchwilydd)**<br>**Helen Jones (Ymchwilydd)**<br>**Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

**TRAWSGRIFIAD**
Gweld trawsgrifiad o’r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i’r cyfarfod.

1.2 Ni chafwyd ymddiheuriadau.

## 2 Papurau i’w nodi

2.1 Nodwyd y papurau.

## 3 Cynllun Blynyddol Archwilydd Cyffredinol Cymru 2015-16

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Kevin Thomas a Gillian Body, Swyddfa Archwilio Cymru.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Cynllun Blynyddol Archwilydd Cyffredinol Cymru 2015-16: Trafod y dystiolaeth

5.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod y dystiolaeth a ddaeth i law, a chytunwyd i ysgrifennu at Swyddfa Archwilio Cymru am ragor o wybodaeth.

5.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Llywodraeth Cymru hefyd.

## 6 Casglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru: Trafod yr adroddiad drafft

6.1 Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad drafft â rhai mân newidiadau.

## 7 Y Bil Rhentu Cartrefi (Cymru): Trafod ymateb y Pwyllgor

7.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y llythyr drafft.

## 8 Bil yr Amgylchedd (Cymru): Ystyriaeth gychwynnol

8.1 Trafododd y Pwyllgor oblygiadau ariannol Bil yr Amgylchedd (Cymru), gan gytuno i wahodd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol i un o'i gyfarfodydd er mwyn craffu arno ymhellach.

## 9 Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru): Ystyriaeth gychwynnol

9.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod goblygiadau ariannol Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) a chytunodd i beidio â gwneud gwaith craffu ariannol pellach ar y Bil.

9.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol.

## 10 Rhagolygon ar gyfer Trethi Cymru

10.1 Cytunodd y Pwyllgor i ailystyried y mater yn ei gyfarfod nesaf.

CIPFA The Chartered Institute of Public Finance & Accountancy

# National Assembly for Wales Finance Committee – Consultation on Future Funding

## A Submission by:

## The Chartered Institute of Public Finance and Accountancy

**June 2015**

the people in public finance

**CIPFA, the Chartered Institute of Public Finance and Accountancy**, is the professional body for people in public finance. CIPFA shows the way in public finance globally, standing up for sound public financial management and good governance around the world as the leading commentator on managing and accounting for public money.

Further information about CIPFA can be obtained at www.cipfa.org

Any questions arising from this submission should be directed to:


**Don Peebles**
Head of CIPFA Scotland
CIPFA in Scotland
Level 3 Suite D
160 Dundee Street
Edinburgh
EH11 1DQ
Tel: +44 (0)131 221 8653
Email: don.peebles@cipfa.org

**Alan Bermingham**
Policy and Technical Manager
(UK Devolved Regions and Ireland)
3rd Floor, Lesley Exchange 2
22 East Bridge Street
Belfast
BT1 3NR
Tel: +44 (0)2890 266 1653
Email: alan.bermingham@cipfa.org

## 1. Executive Summary

1.1 Reflecting on the focus of the Committees inquiry into future funding considerations, this submission will concentrate on the following areas:

- The key weaknesses and limitations *(see appendix 1)* in the current Welsh funding settlement and how these should be addressed

- What type of financial information is needed by the Welsh Government to provide appropriate support for and scrutiny of future funding arrangements

- The relevance of the Barnett Formula funding arrangements and;

- The principles that should be adopted to underpin further devolution of fiscal powers to Wales

1.2 CIPFA would make the following conclusions and recommendations to the Committee for consideration in its inquiry.

- The current funding settlement for Wales sets out prescribed borrowing limits set by the UK Government.[1] These limits are already significantly lower than levels of affordable borrowing in Local Government in Wales. A prescribed level of borrowing sets limits on the fiscal levers available to the Welsh Government.

- CIPFA would support the implementation of borrowing supported by a prudential management regime as recommended by the Smith Commission in Scotland.[2]

- CIPFA believes that the funding through the mechanism of the Barnett Formula is inconsistent with a position of further devolution of tax powers to devolved administrations.

- CIPFA advocates a position where further resource allocation across the UK should be principles based, transparent, accountable and should seek to address relative need as well as promotion of equity.[3]

---

[1] Wales Act 2014, Section 20 ' Borrowing'

[2] The Smith Commission Report, paragraph 95 (5) (b) http://www.smith-commission.scot/wp-content/uploads/2014/11/The_Smith_Commission_Report-1.pdf

[3] CIPFA Briefing – Funding Devolved Government - http://www.cipfa.org/cipfa-thinks/briefings

- In order to support the devolved financial powers and enhanced accountability of the Welsh Government, there needs to be an appropriate robust system of financial reporting at a whole of Wales public sector level. This would include a balance sheet for Wales to assess the state of public finances in Wales and underpin enhanced scrutiny arrangements.[4]

- The Welsh Government should plan for a robust system of public financial management that includes an enhanced fiscal framework, independent scrutiny of Welsh Government tax and spending forecasts, all of which is support by legislative arrangements.

## 2. Borrowing and Prudential Management

2.1 The current financial settlement includes borrowing powers of up to £500m for current revenue spending shortfalls, which remains unchanged from the Government of Wales Act 2006.[5] Capital borrowing powers providing a borrowing limit of £500m have been introduce in the Wales Act 2014.[1]

2.2 The limits are set taking account of the ratio between devolved tax revenues and borrowing. Taking account of this, it is put forward by the UK Government that the current settlement for Wales is more generous than that proposed for Scotland.[6]

2.3 CIPFA would support the approach taken by the Smith Commission in Scotland.[2] This would mean that the Welsh Government should also have sufficient borrowing powers to support capital investment, consistent with a sustainable overall UK fiscal framework. The Welsh and UK Governments would need to consider the merits of undertaking such capital borrowing via a prudential borrowing regime, similar to Local Government,[7] and consistent with a sustainable overall UK framework.

2.4 We believe that this approach would facilitate a greater focus on medium to long term planning for Wales in its approach to Capital Investment. It would provide for greater accountability and transparency to the Welsh Assembly and Welsh Electorate, given that supporting prudential indicators are agreed, reviewed and published, and it would place the

[4] CIPFA Manifesto – things can only get worse, A call for sustainable public finance - http://www.cipfa.org/cipfa-thinks/manifesto2015
[5] Government of Wales Act 2006, Section 122 (2)
[6] HM Government, Wales Bill: Financial Empowerment and Accountability, para 88-90 - https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/294421/Wales_Bill_Command_Paper_-_English.pdf
[7] CIPFA, The Prudential Code for Capital Finance in Local Authorities (2011 Edition)

significant fiscal lever of borrowing for investment fully within the hands of the Welsh Government.

2.5 Within Local Government in Wales a similar prudential regime has been successfully in place for a number of years. A key element of the prudential regime is that Local Authorities set their authorised borrowing limit annually. Essentially this limit is the maximum that the elected members will allow executive officers to borrow and it is set in the context of its affordability on local taxation.

2.6 For an indication of the scale of borrowing in Local Government; in the 2010/11 financial year the total authorised limit across local government in Wales was over £5.0bn,[8] significantly greater than the limit being imposed by the UK Government on Capital Borrowing for the Welsh Government. As at the 31st March 2013, outstanding loan debt on the balance sheets of Local Authorities in Wales stood at £2.4bn.[9]

2.7 In order to fully support this approach, CIPFA advocates putting in place the following:

- A formal updated fiscal framework for Wales, supported in legislation
- An agreed set of Prudential Indicators, measuring affordability, sustainability and prudence of the medium term to longer term investment decisions of the Welsh Government
- An agreed method for Independent Scrutiny of the revenue and spending forecasts of the Welsh Government

## 3. Barnett Formula Funding

3.1 CIPFA believes that continuation of the use of the Barnett Formula to deal with further devolution is not feasible. Further, we believe that the Barnett Formula in its current form should be withdrawn.

3.2 A way forward was outlined by the Steele Commission[10] which drew attention to the arrangements put in place when Australia introduced a major package of reform to its fiscal system in 1999. The changes came with a guarantee that each state would not be worse off during the transitional period than it would have been had the changes not been implemented. The transition period was approximately 8 years and during

[8] Prudential Borrowing and innovative approaches to capital funding Welsh Local Government Association – 2 March 2012 – paper to the Finance Committee of the National Assembly for Wales
[9] Capital and Treasury Management Statistics 2013/14, CIPFA.
[10] Moving to federalism – A New settlement for Scotland March 2006

this time states whose income fell below the guaranteed level were given non ring fenced grants to maintain overall revenue levels.

3.3 CIPFA believes that any future funding solution would have to consider relative public service needs. For example, a recent report on fiscal devolution concluded: 'for a system of fiscal devolution to balance equalisation and incentives it has to start with an assessment of need and resources; have a mechanism for reallocating disproportionate tax yield growth and include periodic reassessments'.[11] Any solution would also need to factor in the extent of local control over taxation including for example over non-domestic and domestic rates.

3.4 A clear case for a principles based approach to funding devolved government across the UK emerges from CIPFA's assessment of reviews of the Barnett Formula and consideration of International evidence. CIPFA has proposed four simple principles which would underpin the funding for all devolved government across the UK:[3]

- **Need** – the relative need and assessment of the socio-economic circumstances of each of the devolved government areas should be assessed;

- **Equity** – this would be the cornerstone principle promoting equalisation across the nations of the UK.

- **Accountability** – the devolved administrations should have some powers over taxation to provide a direct relationship between services provided and taxes paid, this making them more directly accountable, and

- **Transparency** – any funding mechanism should be transparent in its operation and should be the responsibility of a body independent of government.

3.5 We note that the UK Government has committed to establishing a process to review relative levels of funding within the block grant with the potential of introducing a floor in funding. [12] This will provide a Wales with a method to alleviate the process of future funding convergence under the Barnett Formula arrangements.

3.6 Placing a floor into the relative funding mechanism under Barnett for Wales does however raise the question of the funding position for the

[11] House of Commons, Communities and Local Government Committee Report, Devolution in England: the case for Local Government, June 2014
[12] UK Government: Powers for a Purpose: Towards a Lasting Settlement for Wales, (Chapter 4, para 4.9), February 2015,

other devolved regions funded under Barnett Formula arrangements. This would put the regions on a different funding basis, if not implemented elsewhere, and further undermine the relevance of the current funding mechanism.

3.7 CIPFA supports the view taken by the UK Government which has stated that they will work with the Welsh Government to develop sustainable long-term funding arrangements within a robust fiscal framework that reflect the changes made.[13]

## 4. Financial Information to Support Future Funding Arrangements

4.1 An important component of supporting further devolution of powers to Wales is the quality of state level financial information and governance. Without good financial information and advice, policy makers and managers of public services fail to make sound decisions, leading to poor use of public money.

4.2 Robust financial reporting at a state level will be important for Wales for a number of reasons:

- To provide markets with an understanding of the state of public finances in Wales, supporting any move by the Welsh Government to raise finance through commercial markets.
- To provide transparency which helps inform voters and other stakeholders about the financial stewardship of the Welsh Government.
- To underpin sound decision making and scrutiny arrangements under any revised fiscal framework and;
- To enable medium to longer-term planning

4.3 CIPFA would advocate the development and use of projected combined Welsh public sector level balance sheets[14] as an integral part of the Welsh Governments fiscal and budgetary frameworks.

## 5. Reserved Powers Model

5.1 CIPFA, having taken note of the available research,[15] supports the view that the Reserved Powers Model offers a number of advantages over the

[13] UK Government: Powers for a Purpose: Towards a Lasting Settlement for Wales, (Chapter 4, para 4.11), February 2015,
[14] CIPFA Manifesto 2015, section 6, page 18
[15] Scottish Law Commission, Comments on White Paper ' Our Changing Democracy: Devolution to Scotland and Wales' Memorandum no. 32, June 1976

Conferred Powers Model that is contained within the Government of Wales Act 2006.

5.2 The key advantage is to provide legal clarity over what powers the Welsh Assembly has and to remove any uncertainty in areas where it may be difficulty under the Conferred Powers Model to specifically define all the areas of responsibility that the Welsh Government should have. The Reserve Powers Model has been previously proposed by the Richard Commission 2004,[16] based on the Scottish Model of legislative powers.

5.3 Adoption of a Reserved Powers Model in Wales will also bring an element of consistency in approach to devolution across the regions of the UK. CIPFA does not expect full co-ordination of devolution settlements across the regions as it would be expected that regions will move at different paces and the appetite for devolved powers within the electorate in each regions may well differ. However, we do believe that it would be appropriate and fair if the model for devolution settlements had a degree of consistency.

[16] Report of the Commission on the Powers and Electoral Arrangements of the National Assembly for Wales http://researchbriefings.files.parliament.uk/documents/SN03018/SN03018.pdf

**APPENDIX 1 – Summary of Limitations in the current funding system**

| | |
|---|---|
| Block grant calculated by Barnett formula | The Welsh Government has no control over the level of funding available and must ensure public services are affordable within the funding envelope provided. Some control can be exercised over levels of local taxation and other funding sources; the block grant provides the majority of income for the Welsh Government.<br><br>The Wales Act 2014 provides that a referendum can be held to give Welsh Ministers the power to vary income tax, and gives the Welsh Government control of stamp duty land tax and landfill tax. These measures may provide some additional funding depending on the choices made. |
| Limitations on how block grant can be spent | As the UK Government retains control over fiscal policy, HM Treasury imposes controls on the block grant. Under a reserve powers model the Welsh Government has discretion over how to spend the majority of the block grant in relation to devolved areas.[17]<br><br>Some more volatile elements of expenditure are restricted.[18] Spending in these areas is not within the discretion of the Welsh Ministers, and this funding must be used for the purpose for which it is provided, or returned to HM Treasury. Although this provides the Welsh Government's funding with an element of protection from the risks associated with such volatile, demand-led elements of spending, it also removes an element of control over the totality of their available funding. |
| Inability to hold reserves | Funding received in the block grant cannot be held in 'reserve' to be carried over into future financial years.[19] Any unspent grant must be returned to the Treasury at the end of the financial year.<br><br>There is a system by which the Welsh Government can ask to carry forward any unspent grant, the budget exchange mechanism.[20] However, this is subject to limits, and is designed to avoid the 'use it or lose it' effect where money is spent merely to avoid being lost, |

17 The departmental expenditure limits (DEL).
18 Included in the annually managed expenditure (AME).
19 It should be noted that local government in Wales can hold reserves.
20 As detailed in HM Treasury's Consolidated Budgeting Guidance.

| | |
|---|---|
| | rather than to manage financial pressures across years. This does not enable the funds to be held in a 'reserve' but rather allows access to the agreed amount in the next financial year. |
| Inability to borrow over the long term | Local government in Wales can borrow money, as long as this is affordable and prudent.[21] This enables authorities to spread the cost of capital investment in schools, roads and other infrastructure, over a number of years.<br><br>Under the current settlement, the Welsh Government has only limited ability to borrow money, with the power to borrow up to £500m to cover temporary shortfalls in revenue spending and £500m for Capital Investment[1] |
| Limited information on future funding levels | In terms of financial planning for the future, the Welsh Government has only restricted information on its future level of funding. Although the block grant does provide a level of certainty, the amount of grant to be received is indicated as part of the UK Government's Spending Review process, which intends to provide figures for three financial years, to enable financial planning.[22]<br><br>The timing and lengths of Spending Review periods have varied, with the Spending Round 2013 providing figures for only two years (2014-15 and 2015-16), with no forecasts for financial years beyond the UK general election.<br><br>Spending Reviews provide an indication of what the block grant is likely to be, these plans are often altered by decisions in UK Government Budgets and Autumn Statements, and therefore the block grant figures are subject to change, in either direction. These issues of timing and changes to the level of grant present difficulties in the ability of the Welsh Government to establish medium or long term financial plans. |

[21] Local Government Act 2003, Chapter 1 Capital Finance, sections 1 - 6
[22] Three year plans apply to the bulk of the grant, the departmental expenditure limit (DEL). However, the more volatile annually managed expenditure (AME) is planned for on an annual basis.

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 8

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyllid
National Assembly for Wales
Finance Committee

Eitem 10

Rosemary Butler AC
Y Llywydd

5 Mai 2015

Annwyl Rosemary

**Gweithdrefnau cyllidebol**

Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor Cyllid wedi cyhoeddi dau adroddiad ar y gweithdrefnau cyllidebol newydd y bydd angen eu rhoi ar waith yn dilyn y cam o ddatganoli pwerau cyllidol. Cyhoeddwyd adroddiad rhan 1 ym mis Gorffennaf 2014. Yn dilyn hynny, cyhoeddwyd adroddiad rhan 2 ym mis Mawrth 2015.

Er bod yr adroddiadau hyn yn bennaf yn gwneud argymhellion i'r Llywodraeth, mae'n amlwg bod gan y Cynulliad gyfrifoldeb dros sicrhau bod y gweithdrefnau newydd yn addas at y diben, a hynny gan sicrhau bod y gweithdrefnau hyn yn cynnwys darpariaeth ar gyfer craffu effeithiol gan y Cynulliad.

Yn benodol, mae argymhelliad 14 yn adroddiad rhan 1 yn dweud:

*Bydd y Pwyllgor yn edrych ar faterion capasiti'r Cynulliad a Llywodraeth Cymru yn ystod ail ran yr ymchwiliad. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Cynulliad a Llywodraeth Cymru yn dechrau ar waith a fydd yn ystyried y capasiti sydd ar gael i gynnal gwaith mewn perthynas â datganoli dau bŵer ariannol arall i Gymru.*

Mae argymhelliad 1 yn adroddiad rhan 2 yn dweud:

*Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad weithio gyda'i gilydd i ddatblygu proses newydd ar gyfer y gyllideb, sy'n caniatáu ar gyfer:*

cyhoeddiadau ynghylch cyllideb y DU,

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCyllid@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddFinance@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

proses ac iddi ddwy ran,

yr angen i roi arwydd cynnar i gyrff cyhoeddus eraill o'u cyllidebau ar gyfer y flwyddyn ariannol ddilynol,

rhoi digon o amser i graffu yn y Cynulliad, a

"diogelu" unrhyw ddatganoli cyllidol pellach at y dyfodol.

Drwy gydol y broses hon, mae'r Pwyllgor wedi cydweithio'n agos â Jane Hutt AC, y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, i sicrhau bod gwaith y Pwyllgor yn cael ei lywio gan y Llywodraeth a bod y casgliadau a'r argymhellion wedi'u llunio er mwyn sicrhau bod anghenion y Cynulliad a'r Llywodraeth wedi'u cymryd i ystyriaeth.  Roedd y ddadl a gynhaliwyd yn ddiweddar ar adroddiad rhan 2 yn dystiolaeth o'n hymdrechion i weithio ar y cyd. Fel Pwyllgor, rydym yn gobeithio y bydd y berthynas effeithiol hon gyda'r Gweinidog yn parhau.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y gwaith y mae'r Cynulliad yn ei wneud:

1. i sicrhau bod gan y Cynulliad gapasiti i wneud y gwaith pwysig hwn ar ddatganoli cyllidol yn y blynyddoedd nesaf
2. ac i sicrhau bod y Llywodraeth yn bwrw ymlaen â'r gwaith sydd ei angen i weithredu gweithdrefnau cyllidebol newydd.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Jane Hutt AC, o ystyried rôl y Llywodraeth yn y gwaith hwn.  Yn ogystal, gan fod y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol wedi dangos diddordeb yn y maes hwn fel rhan o'i ymchwiliad cyfredol, rwyf hefyd yn anfon copi at David Melding AC.

Yn gywir

Jocelyn Davies

Cadeirydd

**Y Fonesig Rosemary Butler AC**
**Dame Rosemary Butler AM**

Llywydd
Presiding Officer

Jocelyn Davies AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Eich cyf:
Ein cyf: PO1008/RB/ER

19 Mai 2015

Annwyl Jocelyn

Diolch am eich gohebiaeth dyddiedig 5 Mai mewn perthynas â pharatoadau'r Cynulliad ar gyfer datganoli pwerau cyllidol.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'r Pwyllgor am ei waith helaeth yn y maes hwn, ac yn enwedig am y ddau adroddiad a luniwyd ar yr Arferion Gorau o ran y Gyllideb. Rwyf yn gwerthfawrogi yn arw y cydnabyddiaeth a roddir i rôl y Cynulliad yn y maes hwn, ac mae'r ddau adroddiad wedi bod o gymorth mawr o ran llywio cyfeiriad y gwaith hwn ar gyfer y dyfodol.

Mae bod yn gwbl barod ar gyfer heriau newydd y Pumed Cynulliad yn un o bum blaenoriaeth strategol y Comisiwn. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd bod yn barod ar gyfer arfer ein pwerau a'n cyfrifoldebau newydd. Fel y mae eich argymhellion yn nodi, mae hyn yn golygu cael:

- y gallu, y ddealltwriaeth a'r arbenigedd cywir yn eu lle fel y gall Aelodau gyflawni eu rôl yn effeithiol ac yn hyderus; a
- gweithdrefnau cyllidebol newydd, sef y model arferion gorau a nodwyd gennych eisoes, a hynny er mwyn craffu'n effeithiol ar sut y mae pwerau trethu a benthyca Llywodraeth Cymru yn cael eu cymhwyso.

Felly, mae paratoi ar gyfer datganoli'r pwerau cyllidol sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Cymru 2014 yn faes blaenoriaeth o waith parhaus. Mae'r canlynol yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf mewn perthynas â phob un o'r meysydd gwaith hyn.

*Datblygu a gweithredu gweithdrefnau cyllidebol newydd*

Fel y nodwyd gan y Pwyllgor a chan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, mae gweithio ar y cyd a chydweithio parhaus rhwng Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Cynulliad yn hanfodol o ran bwrw ymlaen â'r gwaith hwn, a hynny er mwyn sicrhau bod y gweithdrefnau cyllidebol sy'n deillio o'r gwaith hwn yn addas at y diben i'r Llywodraeth ac i'r Cynulliad. Croesawaf ymrwymiad parhaus y Gweinidog i weithio ar y cyd gyda'r Cynulliad.

Mae'r cyfarfodydd rheolaidd a gynhelir rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a swyddogion y Cynulliad yn parhau. Maent yn profi'n ddefnyddiol o ran datblygu ein ffyrdd o feddwl wrth symud tuag at drefn gyllidebol newydd cyn i'r pwerau ddod i rym yng nghylch y gyllideb ar gyfer 2018-19. Mae'r trafodaethau hyn yn dilyn adroddiadau'r Pwyllgor, sydd wedi bod yn allweddol i'r broses hon.

Rydym yn hyderus y bydd hyn yn ein helpu ni i gael cytundeb cyffredinol ar weithdrefnau cyllidebol ar gyfer y dyfodol a chamau diogelu cysylltiedig, a fydd yn caniatáu i Lywodraeth Cymru gyflawni ei chyfrifoldebau ac a fydd hefyd yn darparu ar gyfer gwneud gwaith craffu digonol ar gyllidebau cyhoeddus, a hynny mewn pryd ar gyfer tymor yr haf 2017 a'r paratoadau ar gyfer cylch y gyllideb ar gyfer 2018-19.

Yn ogystal â'r Pwyllgor Cyllid, bydd y Pwyllgor Busnes, sef y Pwyllgor sy'n gyfrifol am weithdrefnau'r Cynulliad, yn chwarae rhan allweddol wrth gytuno ar brosesau cyllidebol yn y dyfodol. Bydd staff y Comisiwn yn sicrhau bod pawb yn cael y wybodaeth ddiweddaraf wrth i'r gwaith hwn fynd yn ei flaen.

Wrth fynd â'r gwaith ar ddatblygu gweithdrefnau cyllidebol newydd ymlaen, bydd holl staff perthnasol y Comisiwn - gan gynnwys Clerc y Pwyllgor Cyllid - yn gweithio mewn modd cydlynol er mwyn sicrhau bod llinellau cyfathrebu clir ar gael i bawb o dan sylw. Cânt eu cefnogi yn y gwaith hwn gan Ian Summers, ymgynghorydd allanol arbenigol.

*Bod yn barod ar gyfer y newid – cynllunio capasiti*

Bydd dau newid mawr i'r gwaith craffu a wneir gan y Cynulliad o ganlyniad i Ddeddf Cymru 2014. Yn gyntaf, bydd angen gwneud gwaith craffu ar ddeddfwriaeth gyllidebol. Yn ail, bydd angen ehangu'r gwaith craffu ariannol cyffredinol a'r gwaith craffu cyllidebol a wneir er mwyn cynnwys trethiant a benthyca, yn ogystal â gwariant cyhoeddus.

Yn ei adroddiad Rhan 1 (Tachwedd 2012), cydnabu Comisiwn Silk y gallai: '...*Comisiwn y Cynulliad Cenedlaethol ddymuno ystyried meithrin gallu ac arbenigedd ar gyfer craffu ariannol drwy hyfforddi Aelodau a thrwy'r cymorth y mae Aelodau'n ei gael drwy ymchwil ac mewn pwyllgorau.*' Ers hynny, mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo yn y Cynulliad i wella ein harbenigedd yn y maes hwn.

Mewn egwyddor, nid yw'r gwaith o graffu ar ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â threth yn wahanol i'r gwaith a wneir ar ddeddfwriaeth arall – mae'r broses ddeddfwriaethol yr un peth. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod angen datblygu sgiliau a dealltwriaeth mewnol mewn perthynas â threthiant, yn ogystal â defnyddio arbenigedd allanol. O ran arbenigedd allanol, mae gan bwyllgorau ryddid eisoes i benodi cynghorwyr arbenigol. Hyderaf y bydd y sefyllfa hon yn parhau. Serch hynny, os bydd angen newid y trefniadau hyn er mwyn cael mynediad at raddfa a lefel y cyngor sydd ei angen arnom, byddaf yn gefnogol yn hynny o beth. Fy mlaenoriaeth yw sicrhau bod y Cynulliad a'i bwyllgorau yn gallu cael mynediad at yr arbenigedd angenrheidiol ar gyfer cyflawni eu cyfrifoldebau cyllidol ehangach.

O ran ein harbenigedd mewnol, mae gan y Cynulliad raglen ar waith eisoes i Aelodau a'u staff ar gyfer datblygu gwaith craffu ariannol. Trefnwyd y rhaglen hon ar y cyd gan dîm Cyswllt a Datblygiad Proffesiynol yr Aelodau a darparwr allanol. Bydd adolygiad o'r rhaglen datblygiad proffesiynol parhaus yn cael ei gynnal yn ystod y misoedd nesaf er mwyn sicrhau ei bod yn addas at y diben ac yn adlewyrchu ein pwerau cyllidol newydd. Bydd rhaglen ddiwygiedig yn ei lle erbyn dechrau'r Pumed Cynulliad, ac felly mewn pryd ar gyfer cychwyn y broses gyllidebol newydd yn nhymor yr hydref 2017.

Mae rhaglen ddatblygu ar gyfer staff y Comisiwn sy'n cefnogi gwaith craffu'r Pwyllgor yn mynd rhagddi. Nod y rhaglen hon yw cadarnhau ein sylfaen wybodaeth fewnol. Rydym hefyd yn dysgu o arfer da a phrofiad Seneddau eraill, fel Senedd yr Alban sydd wedi bod yn craffu ar ddeddfwriaeth debyg

sy'n ymwneud â threth yn ddiweddar, yn sgil y pwerau a roddwyd i'r Senedd yn Neddf yr Alban 2012.

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil wedi dechrau'r broses o ehangu'r tîm sy'n gyfrifol am graffu ariannol drwy recriwtio uwch-swyddog ymchwil ychwanegol.

Rwy'n gobeithio y bydd y wybodaeth hon yn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor fod y cam o fod yn barod ar gyfer datganoli pwerau cyllidol yn flaenoriaeth o fewn y Cynulliad, a bod gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau ein bod ar y trywydd iawn o ran mynd i'r afael â'r heriau sydd o'n blaenau.

Yn unol â'ch cais gwreiddiol, anfonaf gopi o'r ymateb hwn at Jane Hutt AC, y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, a David Melding AC, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, yn ogystal ag aelodau o'r Pwyllgor Busnes.

Rosemary

**Y Fonesig Rosemary Butler AC**
**Llywydd**

# Eitem 11

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon